Gweithredu'r Hawliau

Cylchlythyr Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl Cymru

Croeso i rifyn cyntaf cylchlythyr Gweithredu'r Hawliau – Cymru

GWANWYN 2005

Mae Gweithredu'r Hawliau yn rhwydwaith ar gyfer pobl ifanc anabl. Ei nod yw rhoi fforwm ar gyfer rhoi llais i bobl ifanc anabl, a gweithredu i hyrwyddo a diogelu eu hawliau.

Mae Plant yng Nghymru yn cefnogi datblygiad y rhwydwaith, gyda chefnogaeth gan y Comisiwn Hawliau Anabledd a Comic Relief. Nod y rhwydwaith yw rhoi cyfleoedd i bobl ifanc anabl ddysgu a chael hwyl, dysgu am eu hawliau, codi materion o gonsyrn a chael llais mewn penderfyniadau yn effeithio arnynt.

Mae grwpiau ledled Cymru wedi cymryd rhan wrth greu'r rhwydwaith drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, gweithdai a thrafodaethau. Etholodd y grwpiau gynrychiolwyr i fynychu cyfarfod rhanbarthol, yn Stackpole, Penfro ac yn y Bala yn hydref 2004. Arweiniwyd y cyfarfod gan Plant yng Nghymru, Draig Ffynci a Dynamix.

Defnyddiwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r model Cymdeithasol o anabledd fel sail i ymchwilio materion. Bydd cynrychiolwyr yn bwydo'n ôl i'w grŵp lleol, a dod â syniadau newydd a phryderon i gyfarfodydd y rhwydwaith yn y dyfodol.

Gan mai'ch cylchlythyr chi yw hwn, rydym eisiau gwybod pa faterion sy'n bwysig i chi. Cysylltwch gyda ni a gwnawn yn siŵr y caiff eich sylwadau a'ch syniadau eu rhannu gydag aelodau'r rhwydwaith.

Helo, David Baker wyf i a fi yw eich Cydlynydd Rhwydwaith newydd

Rwy'n byw mewn pentref bach yn Eryri. Rwy'n hoffi cerdded, dringo a beicio mynydd felly mae'n lle perffaith i fyw ac rwy'n hoffi mynd o gwmpas mor aml ag y medraf.

Rwyf wedi gweithio am y 2 flynedd ddiwethaf yn rheoli siop trwsio beiciau sy'n cyflogi pobl gydag anawsterau dysgu a phobl anabl. Mae gennyf gymwysterau athro ac rwyf wedi arbenigo mewn addysgu pobl gydag anawsterau dysgu i ddefnyddio cyfrifiaduron. Rwyf hefyd wedi dysgu pynciau eraill fel celf a chrefft a chwaraeon.

Mae fy swydd yn golygu y byddaf yn eich helpu i adeiladu rhwydwaith o bobl ifanc yng Nghymru a'ch helpu i gael eich lleisiau wedi'u clywed. Ni fedraf addo y gwnawn bethau dros nos. Ond rwy'n addo rhoi cymaint o help a chefnogaeth ag y medraf fel y bydd y rhwydwaith yn tyfu'n fwy ac yn well a byddwn yn gwneud gwahaniaeth. Rwy'n credu y bydd yn wirioneddol gyffrous a hwyl ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phobl ifanc i'w wneud yn llwyddiant.

Os medraf helpu gydag unrhyw beth, yna rhowch wybod i mi.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phawb ohonoch.

Disability Rights Commission

COMIC RELIEF

PLANT YNG NGHYMRU • CHILDREN IN WALES

Os hoffech ymuno â Fforwm E-bost Gweithredu'r Hawliau yna anfonwch gais e-bost at:

David Baker,
Cydlynydd,
Gweithredu'r Hawliau,
24-26 Stryd Fawr,
Caernarfon LL55 1RH
Ffôn: 01286 677570
Ffacs: 01286 676095
E-bost:
david.baker@childreninwales.org.uk

YN Y RHIFYN HWN

Ymweliad Stackpole 2
Deinamig 3
Pobl Caerdydd 4-5
Clebran & Dash 6

Diwrnod Un: Cyrraedd

Fy argraff gyntaf o Stackpole oedd "iawn, mae'n bwrw glaw, rydym tua 30 munud ar droed o'r môr ac nid oes unrhyw siopau am gwpl o filltiroedd."

Os oes storm ac os caiff ein pŵer ei dorri i ffwrdd, yna rydym yn marw ac i wneud pethau'n waeth, rydym yn ymyl cae o wartheg felly bydd yr holl wartheg gwirion yn fy nghadw ar effro drwy'r nos"! Es ar unwaith i fy ystafell oherwydd roedd gen i fag o ddillad yn un llaw a fy ngitâr yn y llaw arall. (Roeddwn wedi mynd â fy ngitâr gyda mi i fy nifyrru pan nad oeddem yn trafod materion). Roedd yn rhaid i ni fynd drwy ystafell yn edrych fel pabell syrcas fawr gyda tho oedd yn gollwng ac yn gwneud synau ofnadwy pan oedd y gwynt a'r glaw yn chwythu yn ei erbyn. Es â fy stwff i fy ystafell i (roedd gen i ystafell fy hun oedd yn braf). Es wedyn i'r ffreutur i ddweud helo wrth bawb. Fe wnes gyfarfod Cath Lewis o Plant yng Nghymru, Teresa o'r Ddraig Ffynci, Kath o Dynamix, Lee Emery a Splodge a Rhiannon. Fedra'i ddim cofio pawb arall oherwydd roedd cymaint o bobl yno. Unwaith yr oedd pawb wedi cyflwyno ei gilydd aethom i'r brif ystafell oedd yn braf a mawr. Roedd ganddi fwth bach yn y gornel oedd ychydig bach fel bwth gorsaf radio. Fe wnaethom ddechrau drwy atgoffa pawb pwy oeddem.
Fe wnaethom drafod materion pawb am tua awr ac yna fy nhro i oedd hi. Roeddwn yn mynd i'w ddarllen fy hunan ond yn sydyn roedden yn nerfus iawn felly fe wnaeth Zoë ei ddarllen i mi.

Fy 8 mater oedd:

1. **Ymwybyddiaeth anabledd**
2. **Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus**
3. **Hawl i addysg**
4. **Cyfleusterau ieuenctid integredig**
5. **Addysg system gymysg**
6. **Gwell cyfleusterau ieuenctid**
7. **Mwy o gyfleoedd cyflogaeth i'r anabl**
8. **Hawliau dynol sylfaenol**

Ar ôl i fwy o bobl ddarllen eu materion, fe wnaethom roi'r gorau iddi am y nos. Roeddwn yn meddwl fod rhai o'r materion y gwnaethom eu trafod ar y diwrnod cyntaf yn dda ac nad oedd angen trafod rhai ohonyn nhw.

Fe wnes ffrindiau gyda llawer o'r bobl, a mwynheais y diwrnod yn fawr.

"Felly o ystyried popeth roeddwn yn meddwl fod profiad Stackpole yn dda"

Diwrnod Dau: Y Diwrnod Olaf.

Pan wnes ddeffro am 6:30 (yr amser cynharaf i mi erioed fy neffro ar ben fy hunain!) gwisgais amdanaf, tynnu fy ngitâr allan o'i gês a mynd lawr grisiau i gymryd fy meddyginiaeth.

Fe es o amgylch yr adeilad yn canu fy ngitâr a chefais air gyda'r dyn cynnal a chadw. Yr arwydd cyntaf o fywyd a welais o unrhyw un arall oedd Bob yn y gegin am 7:30 yn coginio'r brecwast tra golchais i y mygiau. Ar ôl brecwast fe wnaeth pawb arall bacio eu stwff a'i roi yn y faniau y daethant ynddynt.
Fe wnaethom ddechrau ein trafodaeth am 10:00 a chario ymlaen tan ginio. Ar ôl cinio fe wnaethom chwarae rhai gemau hyd 3:00 pan oedd yn amser mynd. Cyn i ni adael dywedodd Bob wrthym ei fod yn mynd i adael Plant yng Nghymru i fynd at Dynamix, a roddodd ddŵr oer ar yr hyn oedd i fod yn ddiwrnod hwyl. Ffarweliodd pawb â'i gilydd a rhoi'n dymuniadau gorau iddo. Ar y ffordd gartref roeddwn yn llonydd iawn a thawel iawn oedd ddim fel mi o gwbl. Rwy'n meddwl ei fod oherwydd nad oeddwn yn mynd i weld fy holl ffrindiau newydd am dipyn.

"Ar y ffordd gartref roeddwn yn llonydd iawn a thawel iawn oedd ddim fel mi o gwbl. Rwy'n meddwl ei fod oherwydd nad oeddwn yn mynd i weld fy holl ffrindiau newydd am dipyn."

Deinamig -
Ein profiadau yn y Bala

Doedden ni ddim yn adnabod unrhyw un i ddechrau mewn gwirionedd a theimlem braidd yn chwithig ond roedd pawb yn gyfeillgar iawn. Roedd yn wych siarad gyda phobl ifanc arall o bob rhan o Gymru a chlywed am eu straeon a'u profiadau.

Roeddem yn hoff iawn o staff y Ddraig Ffynci a Dynamix, roeddent yn gwneud y gweithdai yn hwyliog iawn a'n helpu i ddeall am hawliau pobl ifanc. Roedd yn galed i ddechrau oherwydd nad oedden ni'n hoffi codi o flaen y grŵp i roi cyflwyniadau. Ond fe ddaeth hyn yn haws wrth i ni wneud ffrindiau a chynyddodd ein hyder. Rydyn ni'n deall y gwahaniaeth rhwng ein hawliau a'n haeddiant yn awr ac wedi medru siarad gyda'n ffrindiau yn yr ysgol/grŵp amdano. Yn Deinamig rydym wedi bod ar y Rhyngrwyd yn ymweld â safleoedd a gaiff eu rhestru yn y llyfryn haeddiant.

Rydyn ni wedi bod yn ceisio cadw mewn cysylltiad gyda'r grŵp drwy'r bwrdd negeseuon. Mae llawer o luniau gwych o'r trip ac roeddwn wrth fy modd yn defnyddio'r camera digidol. Mewn gwirionedd, fedrwn ni ddim stopio!

Roedd y bwyd yn wych, roedden ni wrth ein bodd hefo'r donyts a'r teisennau ac yn y min nos fe aethom i'r ale fowlio, defnyddio'r staff sgiliau syrcas (medrodd James gadw 6 plât i fyny) a gwnaeth un ohonom grys-ti.

"Nid oes gan y ganolfan hamdden yn ein tref y teclyn codi y mae rhai o'r grŵp ei angen i fynd i'r pwll. Dydyn ni ddim yn meddwl ei bod yn deg eu bod yn cael eu gadael allan felly dydyn ni ddim yn mynd yno erbyn hyn."

Dyma rai o'r materion yr hoffai'r cynrychiolwyr a'r grŵp ehangach gael sylw iddynt

- Nid yw'r teclyn codi sydd ei angen i gael rhai o'n grŵp i'r pwll yn y ganolfan hamdden yn ein tref. Mae pawb yn cytuno nad yw'n deg i rai gael eu gadael allan felly dydyn ni ddim yn mynd yno mwyach. Mae'r ganolfan hamdden yn dweud nad oes arian ganddyn nhw i brynu un. Beth fedrwn ni wneud am hyn?

- Fe hoffwn i fynd i goleg neu brifysgol ond fe fyddwn i angen cefnogaeth. A oes gen i hawl i'r gefnogaeth yma – sut mae'n gweithio?

- Mae gan un aelod o'r grŵp chwaer anabl ond mae wedi cymryd llawer o flynyddoedd i'r cyrff proffesiynol gydnabod yr anabledd. Mae'r ferch a'i rhieni wedi cael nifer fawr o gyfweliadau, asesiadau ac apwyntiadau gyda swyddogion. Mae'r ffaith na chafodd ei chwaer y driniaeth a'r gefnogaeth y dylai fod wedi rhoi llawer o bwysau ar ei deulu. Roedd eisiau gwybod pam iddi gymryd cymaint o amser i hyn gael ei drefnu ac a oedd yn digwydd i deuluoedd eraill hefyd?

- Hyd yn oed ar ôl i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ddod i rym mae rhai adeiladau lleol yn dal i fod yn anhygyrch i bobl ifanc oherwydd eu strwythur. Cychwynnodd hon y drafodaeth am ba addasiadau y dylid eu gwneud i sicrhau fod pob adeilad yn hygyrch i bobl anabl.

- Beth ddylai'r canlyniadau fod i bobl heb fod yn anabl sy'n defnyddio gofodau parcio ceir i'r anabl mewn archfarchnadoedd ac ati?

Pobl Caerdydd yn Gyntaf yn cynnwys Mwy o Leisiau

Croeso i Pobl Ifanc yn Gyntaf! Rydym eisiau cael dweud ein barn! Hoffem i chi ymuno â Pobl Caerdydd yn Gyntaf i ddweud ein barn.

Rydym wedi ymuno â Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl Cymru. Mae ynglŷn â hawliau pobl ifanc anabl. Rydym yn mynd i helpu Richard a Stacie roi eu sylwadau yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith i roi cyfleoedd i bawb i siarad drosom ein hunain.

Rydym yn credu fod y Rhwydwaith yn bwysig oherwydd:

- Medrwn helpu i wneud newidiadau
- Medrwn gael gwybodaeth a chyngor
- Mae'n rhoi cyfle i ni gwrdd â phobl eraill gyda diddordebau tebyg a gwneud ffrindiau.
- Medrwn ganfod beth mae pobl ifanc mewn rhannau eraill o Gymru yn feddwl a'i eisiau.

Rydym eisiau gwneud newidiadau yn yr ysgol/coleg – rydym eisiau ciniawau gwell a rhatach yn y coleg

Hamdden - yr hyn rydym yn ei wneud ar ôl yr ysgol ac yn ein hamser hamdden. Rydym eisiau mwy o leoedd i bobl ifanc fynd a thocynnau sinema rhatach.

Yr amgylchedd – rydym eisiau biniau a phalmentydd gwell yn ein hardal. Rydym hefyd eisiau mwy o groesiadau ffordd.



Symud tŷ - rydym eisiau bod yn annibynnol a chael mwy o ddewis o dai.

Trafnidiaeth – rydym eisiau bysus y medrwn oll eu defnyddio a chredwn y dylai bysus fod â gwregysau sedd ar gyfer cadeiriau olwyn.

Rydym eisiau gwybod mwy am ryw a pherthynas.

Teimlai pawb mai un o'r materion oedd yn effeithio mwyaf arnynt oedd rhyw, rhywioldeb a pherthynas.

Afiechydon

Dysgu am ryw ac atal cenhedlu



Ein hawliau i briodi a chael babanod. Rydym eisiau siarad am ba oedran y medrwn briodi.

Gwybodaeth am gael plant a mabwysiadu.

Rhywioldeb – bod yn hoyw/lesbian.

Gwybodaeth am grwpiau cefnogaeth.

BIG LOTTERY FUND

Sut y credwn y medrwn wneud pethau'n well yng Nghaerdydd

- Siarad gyda'r bobl mewn gofal – e.e. pennaeth yr ysgol
- Siarad gyda phobl sy'n rhedeg y gwasanaeth – ee y bobl yn yr orsaf bysus
- Siarad gyda'r cyngor
- Siarad gyda'ch cynghorydd lleol
- Siarad gyda'ch Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad lleol

Beth ydych chi'n feddwl am y materion y gwnaethon ni godi – a ydyn nhw'n bwysig i chi?

Adroddiad ar Gyfarfod y Rhwydwaith yn Stackpole

d/o Jigsaw, Tîm Gweithredu Ieuenctid
C.E.C. Aberdaugleddau
Heol San Pedr
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 2BU

Gwnaethom yn wirioneddol fwynhau'r cyfarfod Rhwydwaith Rhanbarthol a gynhaliwyd yn Stackpole ym mis Hydref. Roedd yn dda cwrdd ag un neu ddau o hen ffrindiau a chwrdd â phobl newydd.

Mae Lleisiau Ifanc dros Ddewisiadau yn teimlo ei bod yn wirioneddol bwysig i gwrdd gyda phobl ifanc anabl o bob rhan o Gymru. Byddem yn gobeithio y byddai'r rhwydwaith hwn yn rhoi'r holl gefnogaeth i ni i fod yn sail i eraill sy'n gwneud penderfyniadau am y materion sy'n bwysig i ni yn ein hardal a ledled Cymru.

Gall cludiant fod yn broblem fawr i ni yn Sir Benfro. Gobeithiwn y medrwn gynnal cyfarfodydd rheolaidd i wneud i bethau ddigwydd o ddifrif.

Gan edrych ymlaen at eich gweld i gyd yn fuan!

Dash

Lansiodd DASH ei gynllun Gweithredu Hawliau yn Hydref 2004. Mae wedi ei anelu i gyflwyno mater hawliau a chyfrifoldebau i bobl ifanc anabl. Ym mis Hydref cyfarfu'n grŵp i ganfod mwy ac etholwyd 4 cynrychiolydd i fynychu cyfarfod yn Stackpole.

Bydd ein cynrychiolwyr yn bwydo'n ôl i'w grwpiau lleol cyn mynd ymlaen i gynhadledd flynyddol yn 2005. Os teimlwch, fel person ifanc, eich bod eisiau dweud wrthym ba faterion sy'n bwysig i chi, dewch draw i'r diwrnod nesaf allan a siarad gyda chynrychiolwyr neu arweinwyr y grŵp, neu gysylltu gyda ni a byddwn yn sicrhau y caiff eich sylwadau eu rhannu gyda'r grŵp ar eich rhan.

Os hoffech ymuno â Fforwm E-bost Gweithredu Hawliau anfonwch eich cais e-bost at: rebekah.jackson@lycos.co.uk neu gysylltu â Rebekah Jackson ar 01545 570951.

Clebran,

Barnardo's Cymru

Fy enw yw Ffion Mair Jones ac rwy'n byw yng Nghlynnog Fawr yng Ngwynedd. Rwy'n aelod o Clebran - Barnado's Cymru, grŵp o blant a phobl ifanc anabl i leisio eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt yng Ngwynedd.

Drwy Clebran y cefais fy ngwahodd i'r cyfarfod preswyl yn y Bala yn Hydref 2004. Roedd hwn yn gyfle da i mi gwrdd â phobl newydd o wahanol rannau o Gymru a chael hwyl! Roedd yn brofiad difyr a diddorol. Buom yn chwarae gemau, dysgu beth yw ein hawliau, yr hyn y mae gennym hawl iddo a llawer o weithgareddau eraill.

Gallasom siarad gyda'n gilydd ar faterion a deimlwn yn bwysig.

Rwy'n edrych ymlaen at y cyfarfod nesaf. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i bobl ifanc gael dweud eu barn ac mae'r rhwydwaith yn ffordd dda o wneud yn union hynny!

Clebran, Barnardo's Cymru



PLANT YNG NGHYMRU
25 PLAS WINDSOR, CAERDYDD CF10 3BZ